

Y Sant Josemaría Escrivá

Sefydlydd Opus Dei

GWEDDI

O Dduw, trwy'r Fendigaid Forwyn Fair, rhoddaist rasusau aneirif i'th offeiriad y Sant Josemaría, a'i ddewis yn gyfrwng cadarn i sefydlu Opus Dei fel ffordd sancteiddrwydd i'r Cristion yn ei waith beunyddiol a'i ddyletswyddau cyffredin. Dysg i minnau sut i droi holl amgylchiadau a digwyddiadau fy mywyd pob dydd yn gyfle i'th garu di ac i wasanaethu'r Eglwys, y Pab a phob enaid byw yn llawen a syml, gan oleuo llwybrau'r ddaear hon â ffydd a chariad. Dyro i mi o'th haelioni y gymwynas yr wyf yn ei cheisio trwy eiriolaeth y Sant Josemaría (mynegwch eich deisyfiad yma). Amen.

Ein Tad, Henffych well, Fair, Gogoniant i'r Tad.

Ble bynnag y bo eich dyheadau, eich gwaith, eich serchiadau, dyna'r man lle dylech gwrdd â Christ bob dydd. Yng nghanol pethau mwyaf materol y byd, dyna'r man lle y dylem ein sancteiddio'n hunain, gan wasanaethu Duw a phob person. Fy meibion a'm merched, y mae nef a daear fel petaent yn uno ar y gorwel. Ond eich calonnau chi yw eu man cyfarfod, wrth i chi gysegru eich bywyd beunyddiol.
Sant Josemaría Escrivá, Homili *Caru'r Byd ag Angerdd*, 8 Hydref 1967.

Ganed y Sant Josemaría Escrivá yn Barbastro, Sbaen, ar 9 Ionawr 1902. Fe'i hurddwyd yn offeiriad yn Saragossa ar 28 Mawrth 1925. Ar 2 Hydref 1928, dan ysbrydoliaeth ddwyfol, fe sefydlodd Opus Dei. Ar 26 Mehefin 1975, bu farw yn sydyn yn Rhufain yn yr ystafell lle arferai weithio, wedi iddo syllu'n annwyl am y tro olaf ar lun Ein Harglwyddes. Erbyn hynny yr oedd Opus Dei wedi lledaenu dros bum cyfandir, gyda thros 60,000 o aelodau o 80 gwlad, yn gwasanaethu'r Eglwys mewn undeb cyflawn gyda'r Pab a'r Esgobion fel y gwnaeth y Sant Josemaría Escrivá yn feunyddiol. Canoneiddiwyd Sefydlydd Opus Dei gan y Pab John Paul II yn Rhufain ar 6 Hydref 2002. Dethlir ei ŵyl ar 26 Mehefin. Anrhydeddir corff y Sant Josemaría yn Eglwys Breladaidd Mair Frenhines Tangnefedd, Viale Bruno Buozzi 75, Rhufain.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Sant Josemaría Escrivá ar:

www.josemariaescriva.info
www.escrivaworks.org

Gofynnir i'r rhai sy'n derbyn ffafr trwy eiriolaeth y Sant Josemaría Escrivá i hysbysu Preladiaeth Opus Dei, 4 Orme Court, London W2 4RL.

Gyda chymeradwyaeth eglwysig.